



Polisi Aesu a Sicrhau Ansawdd ar gyfer Trefniadau Amgen - Haf 2021

Enw'r Ganolfan: Ysgol y Preseli	Rhif y Ganolfan: 68231
Mabwysiadwyd y Polisi gan Fwrdd y Llywodraethol ar: 16.3.21 (DRAFFT)	Dosbarthwyd y Polisi i staff ar: 15.3.21 (DRAFFT) 22.4.21 (Terfynol)
Aelod o staff â chyfrifoldeb am y Polisi:	Mrs Carwen Morgan-Davies (Dirprwy Bennaeth)

Dyddiad Adolygu / Addasu	Fersiwn
15/03/2021	Ddrafft
22/04/2021	Terfynol - Cymeradwywyd gan Fwrdd Arholi CBAC

Cynnwys

Datganiad o Fwriad

- 1. Rolau a Chyfrifoldebau**
- 2. Cynlluniau Asesu Pynciol**
- 3. Asesiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan**
- 4. Darparu Asesiadau**
- 5. Pennu Gradd y Ganolfan a Chofnodi Penderfyniadau**
- 6. Sicrhau Ansawdd Penderfyniadau asesu a graddio**
- 7. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr**
- 8. Adolygiadau a Chwynion Mewnol**
- 9. Ymgeiswyr Preifat**

Datganiad o fwriad

Diben y Polisi Canolfan hwn yw gwneud y canlynol:

- sicrhau y cynhelir Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn deg, yn gyson, heb ragfarn ac yn effeithiol o fewn ac ar draws adrannau a'u bod yn cael eu cynnal drwy gydol y broses
- fel bod y prosesau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chanllawiau clir a chefnogaeth i'r staff
- er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r prosesau'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau
- i gefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- i gyflawni safon uchel o sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu'r graddau a bennir gan ganolfannau
- i sicrhau bod y ganolfan yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd
- i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoleiddiol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliadau Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

Cefndir

- Mae'r Polisi yn amlinellu sut y bydd yr ysgol, fel canolfan arholi, yn defnyddio'r 'Canllawiau ar Drefniadau Amgen ar gyfer TGAU Cymeradwy, AS a Safon Uwch' a ddarperir gan Gymwysterau Cymru, y rheolydd arholiadau, wrth benderfynu graddau yn 2021.
- Maen berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Ar gyfer yr ychydig iawn o gymwysterau y tu allan i'r cylch gwaith hwn, ac a reoleiddir gan Ofqual, bydd yr ysgol yn defnyddio'r canllawiau perthnasol i'r pynciau hynny, fel arfer rhai Lefel 1-3.
- Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai cyfres arholiadau haf ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd TGAU, lefelau UG na Safon Uwch yn 2021. Ar Ionawr 20fed 2021, cadarnhawyd y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu dyfarnu gan ddefnyddio Graddau a Bennir gan y Ganolfan. Mae hyn yn golygu y byddai canolfannau arholi unigol, fel ysgolion a cholegau, yn pennu'r graddau gwirioneddol a ddyfarnwyd ar gyfer pob cymhwyster.
- Trwy rannu ei dull, mae'r ysgol yn ceisio cynnig eglurder a hyder i fyfyrwyr, staff a theuluoedd. Ar ben hynny, mae'n darparu trosolwg o'r penderfyniadau y bydd athrawon yn eu gwneud; sut y bydd athrawon yn gwneud y penderfyniadau hyn; a nodi'r dystiolaeth y bydd athrawon yn ei defnyddio i gefnogi'r broses benderfynu.

1. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae rolau a chyfrifoldebau penodol staff, ar ystod o lefelau, o ran cymwysterau yn aros yn ddigymffwrdd i raddau helaeth â chyfresi arholiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer dyfarniadau yn 2021, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau canlynol yn berthnasol o ran pennu graddau:

Corff Llywodraethol a Chadeirydd y Corff

- Trafod a chymeradwyo'r polisi hwn ynghyd a pholisiâu cysylltiedig eraill.

Pennaeth:

- Gweithredu fel Pennaeth y ganolfan a sicrhau rolau a chyfrifoldebau clir er mwyn gweithredu'r polisi. Cadarnhau hygyrddedd y broses o bennu graddau'r ganolfan ac arwyddo datganiad Pennaeth y ganolfan.

Dirprwy Bennaeth a Phenathiaid Cynorthwyol:

- Y Dirprwy Bennaeth bydd yn gyfrifol am lunio Polisi'r Ganolfan a'r person bydd yn ymchwilio i unrhyw apêl am raddau yn y lle cyntaf.
- Mynychu sesiynau hyfforddiant perthnasol gan y byrddau arholi er mwyn darparu cefnogaeth briodol i'r adrannau yn eu gofal (Mae gan bob aelod o'r TRH gyfrifoldeb dros adrannau penodol).
- Hyfforddi staff ar y broses o greu fframweithiau asesu pynciol

- Darparu arweiniad ar y broses o bennu graddau a sicrhau cyfathrebu clir a chyson. Cynnwys pennu graddau ar agenda pob cyfarfod Tim Rheoli, Rheolwyr Ganol, Adrannol a sicrhau bod cofnodion manwl o drafodaethau. Rheolwyr ganol i rannu cofnodion cyfarfodydd gyda rheolwyr llinell ar y Tîm Rheoli er mwyn cofnodi tarfodaethau, penderfyniadau a sicrhau cyfathrebu clir trwy gydol y broses pennu graddau.
- Rhannu a thrafod cynnwys polisi'r ganolfan ar 'Brosesau asesu a sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau amgen haf 2021' gyda phob aelod o staff er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb ar draws y ganolfan.
- Sicrhau ansawdd cynlluniau asesu adrannol.
- Darparu hyfforddiant priodol i staff ar sut i gofnodi a chadw tystiolaeth yn ddiogel gan gynnwys 'Cofnod Penderfyniad Dysgwyr'.
- Dirprwy Bennaeth i ddatblygu system ganolog ar SIMS i gadw 'Cofnod Penderfyniad Dysgwyr'. Rheoli cofnodion o'r asesiadau a chofnodi'r sylwebaeth wrth bennu graddau.
- Dadansoddi data yn ymwneud â graddau wedi eu pennu gan y ganolfan.

CADY (ALNCo)

- Wrth roi trefniadau mewn lle rhei ystyriaeth lawn i'r canllawiau canlynol:
 - Llyfr Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 1 Medi 2020 i 31 Awst 2021.
 - Hysbysiad i Ganolfannau - Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac aseswyr - Mehefin 2021
 - Gwybodaeth atodol bwysig yn nogfen CBAC 'Canllawiau i bolisi canolfannau'
- Gweinyddu trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol.
- Cyfathrebu trefniadau mynediad gyda staff dysgu a chadw gorolwg o berfformiad disgyblion ADY.
- Cydweithio a chyfathrebu gyda staff er mwyn sicrhau fod trefniadau yn eu lle ac yn cael eu gweithredu.

Swyddog Arholiadau

- Mi fydd y Swyddog Arholiadau yn sicrhau cofrestriadau manwl a chywir yn unol â gofynion y bwrdd arholi
- Rhannu gwybodaeth a ddaw gan CBAC, OCR, PEARSON a Chymwysterau Cymru yn brydlon gyda phob aelod o staff perthnasol.
- Hwyluso'r broses weinyddol a chysylltu gyda'r bwrdd arholi lle bo angen.

- Cyflwyno ceisiadau am apeliadau ac ymgymryd â gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig.
- Cyflwyno'r graddau a bennir gan y Ganolfan yn gywir i CBAC yn unol â'r amserlen.

Penaethiad Adran / Arweinwyr Pwnc

- Bydd Penaethiad Adran / Arweinwyr Pwnc yn gyfrifol am greu cyfeiriad ar gyfer yr adran o ran y math o dystiolaeth i'w ystyried ac i sicrhau cysondeb wrth raddio trwy gynnal gweithgareddau safoni adrannol gyferbyn yr Amcanion Asesu a chwblhau'r trywydd papur priodol. Rheoli'r broses o gadw tystiolaeth yn ddiogel gan gynnwys Cofnodion Penderfyniadau Dysgwyr. Bydd staff addysgu yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei gasglu o fewn yr amserlen gyhoeddedig.
- Mynychu cyfarfodydd cyson gyda'r Rheolwr Cyswllt i drafod y broses o bennu graddau yn unol â pholisi'r ysgol.
- Mynychu unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y bwrdd arholi
- Cynnal cyfarfodydd adran i benderfynu ar gynllun asesu adrannol a sicrhau bod tystiolaeth ddigonol ar gael.
- Cynnal cyfarfodydd adran cyson a sicrhau cofnodion manwl o drafodaethau.
- Sicrhau bod gwaith dysgwyr wedi ei storio'n ddiogel a bod modd cael gafael arno i gefnogi unrhyw adolygiadau mewnol / apeliadau.
- Samplu 'Cofnod Penderfyniad Dysgwyr' o fewn y pwnc fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

Staff Dysgu

- Dilynnu canllawiau adrannol a gweithredu yn unol â'r Cynllun Asesu Pynciol i sicrhau cysondeb.
- Sicrhau bod graddau a bennir yn adlewyrchiad teg, dilys a dibynadwy o'r dystiolaeth.
- Cwblhau 'Cofnod Penderfyniad Dysgwyr'
- Cadw tystiolaeth a fu'n sail i unrhyw benderfyniad yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r ysgol a rheoliadau GDPR.
- Rhaid i athrawon wneud dysgwyr yn ymwybodol o natur a meini prawf y dasg a osodwyd a sicrhau bod dysgwyr yn deall pryd y bydd gweithgaredd yn cyfrannu at bennu gradd.
- Bydd athrawon yn marcio gwaith a gyflwynwyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, a bennir gan arweinwyr pwnc.
- Bydd athrawon yn gweithio gydag arweinwyr pwnc perthnasol i sicrhau bod dysgwyr sydd â hawl i gael trefniadau mynediad, yn derbyn hynny. Bydd athrawon yn sicrhau bod addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr a nodwyd yn cael eu cyflawni.
- Ni fydd athrawon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wella eu gwaith, ar ôl eu cyflwyno.

2. Cynlluniau asesu pynciau

- 2.1 Gan ddefnyddio Fframweithiau Asesu Cymwysterau Terfynol CBAC fel sail, bydd Penaethiaid Adran ac Arweinwyr Pwnc yn datblygu cynlluniau asesu ar gyfer eu meysydd pynciol. Wrth lunio'r cynlluniau asesu, bydd athrawon yn defnyddio'r ddogfen **“Strategaeth Asesu ar gyfer GBG (Graddau a bennir gan y Ganolfan) – Haf 2021”** a grëwyd gan y ganolfan er mwyn sicrhau fod yr asesiadau yn cwrdd â meini prawf CBAC a Chymwysterau Cymru. Cyflwynir y fersiwn ddrafft i'r Tim Rheoli erbyn dydd Gwener y 19eg o Fawrth, 2021 fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.
- 2.2 Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd cynhelir cyfarfodydd rhwng Penaethiaid Adran a'r Tîm Rheoli i drafod cynnwys y cynlluniau cyn rhannu'r cynlluniau gyda dysgwyr a'u rhieni / gwarcheidwaid (26.3.21).
- 2.3 Mae'r fethodoleg asesu ar gyfer Haf 2021 wedi ei seilio ar **asesiadau craidd a Thystiolaeth Ategol**. Gyda'i gilydd bydd yr asesiadau craidd ac ategol yn darparu sylfaen teg a chyson i athrawon gyflwyno tystiolaeth o safonau cyrhaeddiad dysgwyr gan hefyd rhoi'r hyblygrwydd i sicrhau ecwiti i'r holl ddysgwyr. Bydd y fethodoleg hyn ar waith ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch CBAC ar gyfer Haf 2021.

Asesiadau Craidd: Bydd yr asesiadau craidd yn cael eu gweinyddu yn y cyfnod rhwng y 15fed o Fawrth a'r 27ain o Fai a byddant yn seiliedig ar gyn-bapurau addasol CBAC ac / neu unrhyw ADA (Asesiadau Di-Arholiad). Cyhoeddir cyfres o gyn-bapurau addasol a chynlluniau marcio cysylltiedig gan CBAC ar y 15fed o Fawrth 2021. Mewn achosion lle na fydd modd defnyddio cyn bapurau, bydd modd i athrawon greu asesiadau gan ddilyn y cyfarwyddiadau a osodir o fewn adran 3 y polisi hwn “Polisi Ysgol y Preseli ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau amgen haf 2021”.

Bydd yr Dystiolaeth Ategol yn cynnwys asesiadau eraill sydd wedi eu gweinyddu yn ystod cyfnod astudio'r cwrs ac sy'n darparu tystiolaeth ychwanegol i athrawon i ddefnyddio er mwyn gosod gradd ffit-orau i ddisgyblion.

Bydd y dystiolaeth o'r asesiadau craidd a'r Dystiolaeth Ategol yn cael eu defnyddio i bennu gradd ffit-orau derfynol i ddisgyblion ar gyfer cymhwyster.

- 2.4 Cyn llenwi'r fframweithiau asesu pynciol, rhaid i Benaethiaid Adran ac athrawon pynciol sicrhau eu bod yn gyfarwydd gyda Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC ar gyfer eu pwnc a'u bod wedi darllen a ddeall y ddogfen **Strategaeth Asesu ar gyfer GBG (Graddau a bennir gan y Ganolfan) – Haf 2021** a luniwyd gan y ganolfan.
- 2.5 Rhaid i athrawon pynciol sicrhau fod yr asesiadau craidd yn cwrdd a'r amcanion asesu a nodir yn y manylebau wedi eu haddasu a Fframweithiau Asesu Cymwysterau Terfynol CBAC ac ond yn asesu testunau sydd wedi eu darparu i'r dysgwyr.

- 2.6 Wrth benderfynu ar yr asesiadau craidd dylai athrawon seilio eu asesiadau ar cyn bapurau addasol a gyhoeddir gan CBAC ac hefyd unrhyw Asesiadau di-arholiad. Os nad oes yna ddigon o gyn-bapurau wedi eu haddasu ar gael, mae yna fodd i bynciau i greu asesiadau eu hunain gan ddefnyddio Canllawiau Creu Asesiadau CBAC a chyfeirio at adran 3 y polisi hwn. Rhaid i'r asesiadau hyn fod yn berthnasol i amcanion asesu y pwnc a bydd angen i Bennaeth yr Adran neu aelod o'r Tîm Rheoli, sicrhau eu hansawdd cyn eu gweinyddu.
- 2.7 Wrth benderfynu ar Dystiolaeth Ategol, dylai athrawon pwnc ystyried yr amrediad o asesiadau eraill sydd wedi eu gweinyddu yn ystod cyfnod astudio'r cwrs. Dylai'r amrediad ganiatáu hyblygrwydd i ddysgwyr i arddangos tystiolaeth o ansawdd eu gwaith ar draws amrediad o amcanion asesu, ond nid o reidrwydd pob amcan asesu. Bydd angen ystyried a cafodd yr asesiadau yma eu gweinyddu mewn modd teg a chydreddol. Os nad oes modd cadarnhau hynny, dylid defnyddio asesiadau eraill os yn bosib. Os nad yn bosib, bydd angen cofnodi hynny pan yn nodi sylwebaeth ar gyfer y GBG derfynol.
- 2.8 Bydd angen i bob athro gwblhau hyfforddiant CBAC ar osgoi tuedd a thuedd anfwriadol er mwyn cwrdd â "**Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**". Wedi iddynt wneud, bydd angen iddynt wirio'r cynlluniau asesu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, gan wneud unrhyw addasiadau priodol yn ôl yr angen.
[Professional Learning Programme:1 \(office.com\)](#)
- 2.9 Bydd y Tîm Arwain yn sicrhau ansawdd y cynlluniau asesu pynciol ac yn awgrymu unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.
- 2.10 Rhennir Cynlluniau Asesu bob cymhwyster gyda dysgwyr erbyn 26.3.21 yn unol â llinell amser y dysgwyr yn nogfen Cymwysterau Cymru (Fersiwn 2.0).

3. Asesiadau wedi'u dyfeisio gan y ganolfan

- 3.1 Os bydd adrannau yn dyfeisio asesiadau er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer pennu graddau bydd adrannau yn dilyn y Canllawiau Creu Asesiadau CBAC (Chwefror 2021) i sicrhau bod tasgau asesu yn gwneud y canlynol:
- i) bodloni'r egwyddorion allweddol asesu: tegwch a hygyrchedd, dilysrwydd, dibynadwyedd
 - ii) yn cael eu datblygu yn unol â Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC,

- iii) yn cael eu datblygu gan gyfeirio at y disgrifyddion graddau ar gyfer y cymhwyster a ddarperir a/neu feini prawf asesu/cynlluniau marcio manylebau cyfredol.
- 3.2 Bydd adrannau sy'n dyfeisio asesiadau yn cwblhau hyfforddiant ar lein CBAC ar seiliau asesiadau a chreu asesiadau erbyn **Dydd Gwener y 26ain o Fawrth 2021**.
- 3.3 Bydd adrannau yn sicrhau'r defnydd o asesiadau i sicrhau cysondeb ar draws y cymhwyster i'r holl ymgeiswyr.
- 3.4 Arfer dda er mwyn sicrhau cysondeb yw defnyddio deunydd CBAC a'u cynlluniau marcio er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb.
- 3.5 Yn ogystal, bydd pob athro sy'n dysgu cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cwblhau hyfforddiant ar lein CBAC erbyn **Dydd Gwener 26ain o Fawrth 2021**.
- 3.6 Bydd unrhyw asesiad graidd a ddyfeisir gan y ganolfan yn cael ei wirio gan Pennaeth yr Adran ac aelod o'r Tîm Arwain cyn gellir ei ddefnyddio. Yn achlysurol, bydd yr ysgol yn defnyddio arweinwyr eraill o fewn a thu allan yr ysgol i wirio'r asesiadau hyn pe bai angen.

4. Daparu Asesiadau

- 4.1 Nid arholiadau yw'r asesiadau craidd a dylent cael eu ymgorffori i mewn i'r dysgu ac addysgu. Er mwyn sicrhau tegwch yn y broses o weinyddu'r asesiadau craidd, rhaid glynu at yr egwyddorion isod.
 - 4.1.1 Bydd yr asesiadau craidd a gwblheir yn y cyfnod rhwng y 15fed o Fawrth a'r 28ain o Fai yn cael eu cwblhau o fewn ystafelloedd dosbarth o dan oruchwyliaeth yr athro pwnc o dan amodau tebyg i amodau "asesiadau dan reolaeth".
 - 4.1.2 Rhaid fod terfyn amser penodol i'r asesiad, wedi ei arwain gan amseru papurau arholiad ffurfiol.
 - 4.1.3 Ni fydd disgyblion yn rhoi eu henwau ar yr asesiadau craidd pan byddant yn eu sefyll. Yn hytrach, byddant yn cofnodi eu rhif arholiad yn glir. Mae hyn er mwyn osgoi tuedd anfwriadol wrth farcio.
 - 4.1.4 Bydd yr asesiadau yn rhai sydd heb eu defnyddio o'r blaen ac yn asesiadau "llyfr caeedig" ag eithrio mewn sefyllfaoedd lle byddai hyn y ffordd arferol o weithio ar gyfer asesu uned benodol. Fodd bynnag, bydd dysgwyr yn ymwybodol o destun yr asesiad o flaen llaw.
 - 4.1.5 Bydd athrawon yn sicrhau blaen rybydd cyfartal i bob dysgwr o ddyddiad a thestun yr asesiad er mwyn sicrhau tegwch ar draws dosbarthiadau. Bydd y dyddiad yn cael ei gofnodi o fewn calendr pwrpasol ar Teams fel bod modd i'r Tîm Rheoli fonitro llwyth gwaith dysgwyr.
 - 4.1.6 Rhaid caniatáu amser i ddysgwyr baratoi ar gyfer yr asesiad gan gynnwys amser i adolygu yn y dyddiau cyn yr asesiad.

- 4.1.7 Rhaid sicrhau trefniadau mynediad priodol i'r asesiadau fel y'u diffinnir yn y ddogfen "canllawiau am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol Haf 2021"
- 4.1.8 Bydd angen i Benaethiaid Adran ac athrawon sydd yn gyfrifol am ddysgu ac asesu pynciau penodol gyflwyno cynllun asesu adrannol ffurf ddrafft erbyn dydd Gwener yr 19eg o Fawrth. Bydd y cynlluniau yn cael eu gwirio gan aelod o'r Tîm Arwain cyn iddynt gael eu dilysu. Bydd copi o gynllun asesu pob adran yn cael ei rannu gyda'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid erbyn Dydd Gwener yr 26ain o Fawrth 2021.
- 4.2 Ni ddarperir unrhyw adborth ffurfiannol i ddysgwyr wedi iddynt gwblhau'r asesiadau craidd. Fodd bynnag bydd unrhyw elfen grynodol o'r asesiad (marc yn unig) yn cael ei rannu gyda'r dysgwr a bydd y dysgwr yn llofnodi eu bod yn derbyn fod yr asesiad wedi ei gwblhau o fewn amodau priodol a'u bod yn derbyn y marc i fod yn gywir. **Ni fydd hyn yn eithrio'r disgybl rhag gallu apelio'r radd grynodol derfynol a bennir gan y ganolfan.**
- 4.3 Os yw dysgwr yn absennol oherwydd salwch, rhaid i'r athro sicrhau bod y dysgwr yn derbyn cyfle i gwblhau'r asesiad ar ôl dychwelyd. Bydd yr ysgol yn creu amodau er mwyn gallu cyflawni hyn o dan oruchwyliaeth aelod o staff.
- 4.4 Os yw dysgwr yn hunanynysu, rhaid i'r athro naill ai sicrhau bod y dysgwr yn cael cyfle i gwblhau'r asesiad ar ôl dychwelyd neu rhoi cyfle i'r dysgwr gwblhau'r asesiad gartref o dan oruchwyliaeth rithiol.
- 4.5 Os cynhelir asesiadau adref (e.e. oherwydd hunanynysu), rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad mewn amser diffiniedig o dan oruchwyliaeth rithiol a rhaid iddynt ddychwelyd y papur yn electronig ar ddiwedd yr amser hwn. Rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad yn datgan nad ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth yn ystod yr asesiad. Ar ôl derbyn y gwaith hwn, rhaid i athrawon gymharu â gwaith arall a gwblhawyd gan y dysgwr a sicrhau nad yw'r ansawdd yn amrywio'n sylweddol. Os bydd pryder, dylai'r athro drafod gyda'r rheolwr llinell ac efallai y bydd angen cynnal sesiwn holi ac ateb gyda'r dysgwr ynglŷn â'r asesiad a fydd yn cael nodi yn y sylwebaeth.
- 4.6 Dylai athrawon fod yn wylidwrus wrth asesu gwaith dysgwr a dylent godi pryder ar unwaith gyda'u rheolwr llinell oes unrhyw bryderon ynghylch llên-ladrata.
- 4.7 Mae gan yr Ysgol bolisiau penodol ar gwblhau asesiadau di-arholiad, asesiadau dan reolaeth a gweithdrefnau gwaith cwrs. Mae staff yn ymwybodol o gynnwys y polisiau yma. Er hyn, rhaid cofio bod y cyfnod clo yn gofyn am ychydig o hyblygrwydd yn y trefniadau hyn. Yr egwyddor yw y dylai bob athro fod yn hyderus bod y gwaith a gyflawnwyd yn adlewyrchiad o waith y dysgwr ac nid gwaith a gyflawnwyd gan eraill. Mewn achosion o gonsyrn dylai staff dysgu gyfeirio'r mater at aelod o'r Tîm Rheoli ar gyfer ymchwil pellach. Bydd unrhyw ymchwiliad yn dilyn canllaw **JCQ 'Suspected Malpractice-Policies and Procedures 1 September 2020 to 31 August 2021'**.

- 4.8 Mae gan yr ysgol bolisi atal camymddwyn gan ymgeiswyr a staff y ganolfan. Hysbysir staff, disgyblion a'u rhieni o gynnwys y polisi hwn cyn bo'r asesiadau yn cymryd lle.
- 4.9 Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff sy'n dysgu TGAU, UG a SU ar:
- atal camymddwyn / camweinyddu
 - darparu trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol
 - cadw cofnodion / storio tystiolaeth
- 4.10 Mae gan yr ysgol gofnod o wrthdaro buddiannau posib a gweithredir i liniaru effaith hynny.
- 4.11 Bydd yr CADY yn hysbys o amserlen yr asesiadau ac yn cynllunio i sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle i gefnogi dysgwyr sydd â threfniadau mynediad wedi'u cymeradwyo
- 4.12 Bydd athrawon yn hysbys o unrhyw drefniadau mynediad sydd angen eu hystyried ar gyfer dysgwyr unigol a byddant yn gweinyddu'r trefniadau hynny yn y dosbarth. Bydd yr athro yn cofnodi hyn o fewn eu cofnodion asesu. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r ddogfen ganllaw **"Canllawiau am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol – Haf 2021"** er mwyn cwrdd a'n cyfrifoldebau fel canolfan.

5. Pennu Gradd y Ganolfan a Chofnodi Penderfyniadau

- 5.1 Rhaid i bob gradd fod yn benderfyniad gwrthrychol yn seiliedig ar dystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a galluoedd dysgwr mewn perthynas â'r pwnc. **Nid yw'n rhagfynegiad o botensial dysgwr.**
- 5.2 Ni fydd yn bosibl nac yn cael ei ganiatáu i athrawon, na'r ysgol, geisio cyhoeddi gradd a bennir gan y Ganolfan yn seiliedig ar botensial dysgwr. Bydd gofyn i athrawon gymhwysu eu barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangosir yn cwrdd â'r safon arferol ar gyfer gradd benodol. Dylai graddau adlewyrchu beth mae disgyblion yn gallu gwneud, nid yr hyn nad ydynt wedi llwyddo i wneud oherwydd y pandemic. Mae hyn yn egwyddor oedd yn bodoli yn 2020 ac wedi arwain at ganlyniadau teg a chyson gydag ond ychydig yn apelio. Rhaid cadw mewn cof yr hyn y mae CBAC wedi ei awgrymu o ran y dystiolaeth fyddai'n ddelfrydol a'r esiamplau mae CBAC wedi ei roi yng nghyd-destun llwybrau amrywiol er mwyn dangos dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu.
- 5.3 Cyn gosod y graddau, rhaid i'r athro sicrhau bod graddau asesiadau unigol wedi eu cymedroli, gyda marc a/neu radd wedi'u cofnodi yn y daenlen benodedig. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd angen cymedroli gyda chanolfan arall os yn ymarferol (lle bo 1 athro yn unig yn addysgu 1 cymhwyster cyfan yn unigol).
- 5.4 Rhaid i'r athro edrych ar yr ystod o dystiolaeth sydd ar gael (asesiadau craidd ac atodol perthnasol) a phenderfynu ar yr asesiadau y dylid eu dewis sy'n dangos perfformiad y dysgwr orau ar draws y fanyleb. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesiadau hyn yr un

fath. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau ar gyfer unigolion neu grŵp o ddisgyblion lle gall yr athro/athrawes ddewis asesiad gwahanol. Gall ddysgwyr gyflawni'r un radd drwy ddangos cyfuniadau gwahanol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar draws asesiadau amrywiol. Rhaid cytuno ar y penderfyniadau hyn gyda'r Pennaeth Adran a'u cofnodi yn y sylwebaeth. Rhaid i'r ystod o dystiolaeth gwmpasu'r ystod o amcanion asesu.

- 5.5 Wrth edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael i bob dysgwr, rhaid i'r athro ystyried a oedd trefniadau mynediad yn ei le ar gyfer disgyblion perthnasol. Os nad oedd hyn yn wir, dylid defnyddio asesiadau eraill os yn bosib. Os nad yw hynny yn bosib, rhaid ystyried hyn pan yn gwneud penderfyniad ar y radd derfynol.
- 5.6 Rhaid i'r athro fod yn gyfarwydd â disgrifiadau gradd CBAC a rhaid penderfynu ar y radd ffit orau ar gyfer pob dysgwr, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Rhaid i athrawon ystyried y gwahanol bwysoliad a roddir i'r amcanion asesu o fewn y fanyleb.
- 5.7 Lle nad oes tystiolaeth ddigonol, neu lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn is na'r hyn sy'n ofynnol o'r radd isaf ar gyfer cymhwyster (hy gradd G ar lefel TGAU; gradd E ar lefel UG / SU) yna bydd dysgwr yn ennill Gradd U a bennir gan y Ganolfan.
- 5.8 Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i athrawon roi sylw dyledus i'r DCSC Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a sicrhau bod eu barn yn deg, yn ddilys ac yn gyfiawn, yn rhydd o ragfarn a rhagfarn anfwriadol.
- 5.9 Wrth benderfynu ar y GBG, dylai athrawon ystyried a oes angen ystyried ystyriaethau arbennig. Dylai'r cynllun asesu pwnc fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i dystiolaeth gael ei dewis lle nad yw amgylchiadau andwyol yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar berfformiad dysgwyr ar adeg cymryd asesiadau perthnasol, y gellir eu hystyried. Rhaid i unrhyw geisiadau am ystyriaeth arbennig fynd drwodd a chytuno arnynt gan y Swyddog Arholiadau yn unol a'r ddogfen ganllaw ar Ystyriaethau Arbennig. Mae rhai amgylchiadau nad ydynt yn gwneud dysgwr yn gymwys i gael ystyriaeth arbennig. Ni ddylid rhoi ystyriaeth arbennig oherwydd yr amser a gollir oherwydd colli addysgu a dysgu gan fod dull asesu'r ysgol gyfan yn cyfrif am hyn.
- 5.10 Bydd yr ysgol yn ymwybodol o achosion lle mae gwrthdaro buddiannau a bydd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â hyn yn unol a chanllawiau JCQ a welir o fewn y ddogfen ganllaw ar wrthdaro buddiannau.
- 5.11 Cedwir cofnodion o fewn cofnodion asesu pwrpasol a luniwyd ar gyfer pob pwnc. O fewn y cofnod asesu cofnodir:

- 5.11.1 **Fframweithiau asesu:** cofnod o'r asesiadau a ddefnyddiwyd, sut y maent yn cwrdd ag amcanion asesu, pa unedau o waith maent yn asesu, beth oedd amodau gweinyddu'r asesiad, unrhyw drefniadau mynediad arbennig ac unrhyw gamau a gymerwyd i gymedroli'r asesiad.
- 5.11.2 **Cofnod asesiadau:** cofnod o'r radd neu farc a ddyfarnwyd ar gyfer pob asesiad ynghyd a chofnod o'r radd grynodol derfynol ddrafft.
- 5.11.3 **Sylwebaeth:** cofnod o'r radd, sylwebaeth am y penderfyniadau a wnaed wrth lunio'r radd grynodol a chofnod o unrhyw ystyriaethau arbennig a rhoddwyd i'r broses o bennu'r radd drafft.
- 5.11.4 **Dadansoddiad:** dadansoddiad ystadegol o'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer y pwnc. Defnyddir hyn er mwyn sicrhau fod patrwm y graddau a ddyfarnwyd.
- 5.12 Bydd athrawon yn gyfrifol am gadw tystiolaeth asesu pynciol fesul dysgwr mewn ffolder. Bydd gan bob dysgwr waled blastig ym mhob pwnc i gadw tystiolaeth asesiadau craidd. Bydd gan y dysgwyr ffurflen datganiad disgybl ym mlaen pob waled blastig er mwyn i'r disgybl gofnodi'r marc a ddyfernir i'r asesiad graidd ac er mwyn llofnodi eu bod yn derbyn y marc i fod yn fanwl gywir ac amodau'r asesiad yn unol a phwynt 4.2 yn y polisi hwn.

6. Sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu a graddio

- 6.1 Bydd prosesau sicrhau ansawdd cadarn yn sail i sicrhau tegwch, manwl gywirdeb, dibynadwyedd a chysondeb wrth bennu graddau i bob un disgybl ym mhob un cymhwyster.
- 6.2 Cynhelir lefelau gwahanol o graffu ar gynlluniau ac asesu trwy athrawon pynciol, Penaethiaid Adran, Tîm Rheoli a'r Corff Llywodraethol. Gan ystyried yr asesiadau craidd a'r Dystiolaeth Ategol bydd yr athro pynciol yn dod i farn ar radd i bob un disgybl unigol yn seiliedig ar wybodaeth yr ymgeisydd. Rôl Pennaeth Adran bydd dilysu safon ac addasrwydd tystiolaeth a gyflwynir yn ogystal â safonau asesu bob un pwnc unigol. Bydd hyn yn cynnwys dilysu unrhyw asesiadau a ddyfeisiwyd yn fewnol er mwyn sicrhau dibynadwyedd a thegwch.
- 6.3 Bydd Pennaeth y Ganolfan, Y Dirprwy Bennaeth a Phenaethiaid Cynorthwyol yn sicrhau ansawdd unrhyw asesiadau â greawyd gan y ganolfan a fframweithiau asesu pynciol. Byddant hefyd yn samplu cofnodion asesu pynciau ar draws athrawon ac ar draws dysgwyr er mwyn sicrhau cysondeb.
- 6.4 Bydd Penaethiaid Adran yn dilysu'r graddau a bennir gan bynciau unigol drwy'r canlynol:

- 6.4.1 Gweithredu technegau i sicrhau bod marcio yn rhydd o ragfarn lle bo modd (e.e. marcio dall, rhannu marcio gyda gwahanol athrawon)
 - 6.4.2 Sicrhau bod yr holl asesiadau â addaswyd gan CBAC yn cael eu cymedroli ar draws yr adran er mwyn sicrhau cysondeb marcio gan bob athro. Cydweithir gyda chanolfannau eraill mewn pynciau un athro i sicrhau barn broffesiynol gyson ar benderfyniadau. Trefnir hyn mewn cydweithrediad aelodau'r Tîm Rheoli a dylid gwneud cais am gymorth o'r fath mewn da bryd. Rhaid nodi unrhyw newidiadau a wneir i raddau unigol gyda rhesymau clir.
 - 6.4.3 Mae'r Ganolfan yn cydweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos yn y broses o bennu graddau cyfres haf 2021. Bydd hwn yn fuddiol i'r adrannau hynny lle ceir 1 athro yn unig yn darparu cymhwyster penodol.
 - 6.4.4 Sicrhau fod Tystiolaeth Ategol wedi'u cymedroli, neu'n eu bod yn samplu'r marcio gan athrawon.
 - 6.4.5 Craffu ar gofnodion gwneud penderfyniadau ar gyfer dysgwyr, gan sicrhau bod dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig a/neu drefniadau mynediad yn cael eu hystyried yn hafal. Rhaid trafod unrhyw ymholiadau gyda'r athro a rhaid nodi unrhyw newidiadau i raddau gyda rhesymu a thystiolaeth glir.
 - 6.4.6 Nodi unrhyw ddysgwyr sydd wedi cael unrhyw gais am ystyriaeth arbennig a chraffu ar eu cofnod gwneud penderfyniadau.
 - 6.4.7 Dadansoddi perfformiad grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn eu pwnc a chymharu â thueddiadau hanesyddol yn eu pwnc. Rhaid trafod unrhyw ymholiadau gyda'r athro a rhaid nodi unrhyw newidiadau i raddau gyda rhesymu a thystiolaeth glir.
 - 6.4.8 Ysgrifennu adroddiad yn rhoi trosolwg o'u graddau a nodi rhesymau dros unrhyw wahaniaeth sylweddol o dueddiadau hanesyddol.
- 6.5 Bydd Penaethiaid Adran yn sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu ar gyfer bob un disgybl unigol o fewn y pynciau perthnasol. Rhoddir ystyriaeth i drefniadau mynediad wrth graffu ar benderfyniadau asesu er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng dysgwyr.
- 6.6 Trwy gydol y broses asesu a dilysu bydd pob un aelod o staff yn ystyried disgwyliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

<https://www.equalityhumanrights.com/cy/deall-dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-ar-gyfer-y-trydydd-sector-yng-nghymru>

- 6.7 Bydd y Tîm Arwain yn sicrhau ansawdd y graddau terfynol drwy ddadansoddi ac asesu:
- 6.7.1 Dangosyddion ysgol gyfan gyda ffofws ar dueddiadau hanesyddol a data perfformiad hanesyddol y cohort.
 - 6.7.2 Perfformiad pynciau unigol, gan gymharu tueddiadau hanesyddol
 - 6.7.3 Perfformiad disgyblion unigol ar draws yr amrediad o bynciau maent yn astudio.
 - 6.7.4 Cofnodion Asesu pynciol gan gynnwys cofnodion gwneud penderfyniadau.

- 6.8 Bydd pob aelod o staff sy'n rhan o broses graddau a bennir gan ganolfan yn cyflawni Rhaglen Dysgu Broffesiynol asesu ategol ar gyfer Haf 2021 yn llawn.
- 6.9 Bydd yr ysgol yn cyflawni ei goblygiadau fel rheolwr data trwy gydweithio gyda Swyddog Data Mr J Lewis i gynnal asesiad ac adolygiad o'r effaith ar ddiogelu data ac, os oes angen, diweddarau'r hysbysiau preifatrwydd.

7. Cyfathrebu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr

- 7.1 Bydd yr ysgol yn cynnal dull agored a thryloyw gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr o ymdrin â'r dull a'r gweithdrefnau asesu cyffredinol er mwyn hybu hyder yn y prosesau.
- 7.2 Bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr gwybodaeth bwysig ar gamau perthnasol ar hyd y broses gan gynnwys:
- 7.2.1 Strategaeth asesu ysgol gyfan
 - 7.2.2 Fframweithiau Asesu Pynciol Lefel Uchel
 - 7.2.3 Dyddiadau asesu a rhannu gwybodaeth allweddol
 - 7.2.4 Y graddau a dyfarnwyd ar gyfer asesiadau craidd lle'n berthnasol
 - 7.2.5 Unrhyw wybodaeth berthnasol arall ar gais y dysgwyr/rhiant **ag eithrio'r** radd grynodol dros dro.
- 7.3 Rhennir y wybodaeth drwy nifer o wahanol gyfryngau gan gynnwys Parentmail, Sianeli Teams dosbarth/blwyddyn. Byddwn hefyd yn dynodi e-bost penodol graddau21@ysgolypreseli.com i ddysgwyr a'u rhieni er mwyn ymateb i unrhyw gwestiynau yn ymwneud a'r broses.

8. Adolygiadau a chwynion mewnol

- 8.1 Bydd Graddau a bennir gan y Ganolfan Dros Dro yn cael eu rhannu gyda dysgwyr ym mis Mehefin, cyn iddynt gael eu hanfon at CBAC. Bydd dysgwr ym medru apelio y radd a bennir. Bydd tri cham i'r broses apelio:
- Mae Cam 1 yn cynnwys adolygiad canolfan o'r radd dros dro a bennir gan y ganolfan ar sail dyfarniad a / neu gwnaed gwall gweithdrefnol;
 - Bydd Cam 2 yn cynnwys apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a / neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud; a
 - Mae Cam 3 yn cynnwys cais i Gymhwyster Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad (EPRS) i adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.
- 8.2 Bydd CBAC yn rhannu rhagor o wybodaeth am ganllawiau adolygu mewnol ac apeladau ddechrau mis Ebrill. Bydd yr ysgol wedi ymrwymo i ddarllen ac ystyried y canllawiau cyn adolygu a diweddarau gweithdrefnau cwynion ac apeladau mewnol yr ysgol.
- 8.3 Bydd y ganolfan yn sicrhau bod rhieni / gwarcheidwaid â mynediad i bolisi cwynion / apeladau y ganolfan.

8.4 Cyfeirir apeliadau mewnol yn y lle cyntaf at y Swyddog Arholiadau, Mrs A Phillips.

9. Ymgeiswyr Preifat

9.1 Nifer fach iawn o fyfyrwyr sy'n sefyll asesiadau / arholiadau fel ymgeiswyr preifat (3 yn unig).

9.2 Mi fydd ymgeiswyr preifat sy'n hysbys i'r Ganolfan yn derbyn GBG ar gyfer Haf 2021 wedi ei seilio ar **Asesiadau Craidd a Thystiolaeth Ategol**. Gyda'i gilydd bydd yr asesiadau craidd ac ategol yn darparu sylfaen teg a chyson i athrawon i allu cyflwyno tystiolaeth o safonau cyrhaeddiad dysgwyr.